

... ond mod i'n
cyrraedd yn sâff

Bysus ysgol:
yn anelu at deithiau gwell a
mwy diogel i'r ysgol

"Mae gen i lwyth o ffrindiau ar y bws a sdim ots gen i sut dwi'n cyrraedd yr ysgol. Does dim ots o gwbl gen i, ond mod i'n cyrraedd yn sâff."



Gellir sicrhau rhagor o gopïau o'r adroddiad hwn oddi wrth y canlynol:

Comisiynydd Plant Cymru

Tŷ Ystumllwynarth
Charter Court
Ffordd Ffenics
Llansamlet
Abertawe
SA7 9FS
Ffôn: 01792 765600
Ffacs: 01792 765601

Maenor Penrhos
Rhodfa'r Dderwen
Bae Colwyn
Conwy
LL29 7YW

Ffôn: 01492 523333
Ffacs: 01492 523336

E-bost cyffredinol: post@childcomwales.org.uk
Gwefan: www.childcomwales.org.uk

Cyhoeddwyd gan: Gomisiynydd Plant Cymru, 2004

Sylwadau cychwynnol gan Peter Clarke, Comisiynydd Plant Cymru

Gall teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol ar y bws gymryd hyd at ddwy awr o ddiwrnod plentyn. O wrando ar lawer o blant a phobl ifanc a siarad â nhw mae wedi dod yn amlwg i mi bod eu profiadau ar y bws ysgol yn bwysig iddynt.

Mae rhieni a phobl broffesiynol hefyd wedi mynegi nifer o bryderon wrthyf ynghylch bysus ysgol, ac yn ystod y flwyddyn ddiwethaf bu datblygiadau pwysig ym mholisi'r llywodraeth. Teimlaf, felly, ei bod hi'n bwysig ac yn amserol i'm swyddfa gyfrannu at y drafodaeth genedlaethol hon.

Yn gynnar ym mis Rhagfyr 2002 lladdwyd bachgen pan gafodd bws ysgol ddamwain wrth gludo disgyblion adref o Ysgol Gyfun y Bontfaen ym Mro Morgannwg. Yn dilyn y digwyddiad trasig hwn, sefydlwyd grŵp gweithredu o'r enw *Stuart's Campaign* i dalu teyrnged i'r bachgen fu farw - Stuart Rhys Cunningham Jones. Rwyf wedi siarad â'r grŵp ymgyrchu, gan gynnwys rhieni Stuart, ac wedi cefnogi a chymeradwyo yn gyhoeddus eu hymdrech i wella cludiant ysgol. Rwyf hefyd yn ymwybodol o ymgyrch BUSK (Belt Up School Kids). Y lleiaf y gallwn ei ddisgwyl yw y dylid gwneud pob ymdrech i sicrhau diogelwch ein plant wrth deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol.



Ond nid diogelwch yw'r unig fater sy'n destun pryder i mi. Siaradodd fy nhîm â llawer o blant am eu bysus ysgol a chael eu bod yn gosod gwerth mawr ar y bws ysgol: yn edmygu'r ffaith eu bod yn gyfleus a'r cyfleoedd i gymdeithasu. Cymhlethdod pellach yw y gall yr union bethau sy'n gwneud hwn yn brofiad mor ddifyr i rai pobl ifanc wneud y daith yn ddiflas i eraill – ac weithiau beryglu diogelwch pawb.

Yn amlwg bydd y profiad o deithio i'r ysgol yn cael cryn effaith ar hwyliau plentyn. Bydd y mwynhad, neu flinder a phryder y daith, yn effeithio ar allu plentyn i ganolbwyntio yn ystod y diwrnod ysgol a gartref. Mae ystyried cysur a phrofiadau ein plant yn fath ar barch y byddem ni fel oedolion yn ei ddymuno, ac y maent hwy fel plant yn ei haeddu. Bydd hyn yn ei dro yn annog plant a phobl ifanc i barchu cludiant cyhoeddus y tu allan i oriau'r ysgol ac wrth iddynt aeddfedu.

Mae Arolwg Teithio Cenedlaethol 2002 wedi datgelu bod bron un o bob pum car ar y ffordd ar adeg brysuraf y bore yn mynd â phlant i'r ysgol. Mae angen lleihau hyn. Mae defnyddio ceir yn achosi llygredd ac yn amddifadu plant o'r cyfle i gael ymarfer corff a chymdeithasu. Fodd bynnag, gallaf ddeall pam mae plant ac oedolion o'r farn bod y dewisiadau eraill hyd yn oed yn llai apelgar. Mae pryderon ynghylch plant nad ydynt yn cael eu hebrwng yn golygu bod llai yn cerdded, tra bod rhyw 45% o'n plant 5-16 oed sydd yn cerdded i'r ysgol yn aml yn gorfod wynebu sefyllfaoedd peryglus iawn ar y ffordd. Bydd rhieni o reidrwydd yn ystyried ffactorau megis ansawdd a safon y diogelwch a'r gofal a fydd ar gael i'w plant ar fysis contract. Bydd amheuan ynghylch y rhain yn rhwym o ddylanwadu ar eu dewisiadau ynghylch eu cludo yn eu cerbydau eu hunain.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar brofiadau, barn a phryderon ynghylch bysus ysgol, ac ymdeimlad plant a phobl ifanc o fod yn ddiogel (neu fel arall) wrth eu defnyddio. Carwn bwysleisio, serch hynny, fod rhaid annog unrhyw fodd y gellir lleihau'r defnydd o

geir preifat i gludo plant i'r ysgol, gan gynnwys rhannu ceir ac, yn fwy pwysig fyth, ymgyrchoedd cerdded a beicio.

Byddwn hefyd yn argymhell bod ysgolion yn sefydlu cysylltiadau gyda chwmnïau cludiant cyhoeddus i rannu unrhyw bryderon ynghylch lles a diogelwch disgyblion.

Nod yr adroddiad hwn yw casglu ynghyd feddyliau, teimladau a phrofiadau llawer o blant a phobl ifanc ysgolion Cymru heddiw. Mae'n ceisio nodi'r cyd-destun polisi cyfredol yn syml ac yn gryno, a chyflwyno trosolwg gwybodus o'r sefyllfa bresennol ac argymhellion ymarferol o ran blaenoriaethau gweithredu.

A handwritten signature in black ink, consisting of stylized initials 'PC' followed by a long horizontal stroke that curves upwards at the end.

**Peter Clarke, Comisiynydd Plant Cymru
Gorffennaf 2004**

Bysus Ysgol

Cefndir

Plant a Phobl Ifanc

Aeth tîm y Comisiynydd Plant ati i archwilio'r ddeddfwriaeth gyfredol, canllawiau perthnasol ac amrywiol astudiaethau ymchwil. Cynhaliwyd trafodaethau gyda staff, llywodraethwyr, llunwyr polisiâu ac ymgyrchwyr yn y maes. Derbyniwyd hefyd ohebiaeth uniongyrchol oddi wrth unigolion (gan gynnwys plant a phobl ifanc) a sefydliadau. Cadarnhaodd yr wybodaeth hon ein barn bod y mater hwn yn un y mae angen mynd i'r afael ag ef fel blaenoriaeth er mwyn diogelu'n plant a'n pobl ifanc yn well.

Yn amlwg, er bod gwrando ar oedolion yn bwysig, roedd yn hanfodol ein bod yn clywed yn uniongyrchol oddi wrth blant a phobl ifanc am eu profiadau a'u barn ynghylch beth sy'n gweithio a beth sydd ddim, ac yn ystyried y canfyddiadau wrth lunio unrhyw argymhellion polisi. Rydym wedi gadael dyfyniadau'r disgyblion yn yr iaith wreiddiol.

I travel to school on the bus. I like bein able to chat to friends and have a laugh. However, it is a bus as opposed to a coach and so there is a big area at the front. All the yr 7s stand here and mess around, some actually just a few inches from the windscreen. And after what happened in Cowbridge and all...

William, aelod o Atebnôl

Clywed oddi wrth Blant a Phobl Ifanc

"Sdim rhaid i chi cerdded - a ma fe'n brilliant!"

Shirley, 11, Ceredigion

Roeddem yn awyddus i gywain data ansoddol am deimladau plant a phobl ifanc ynghylch diogelwch ar eu bws ysgol, ac felly lluniwyd y fethodoleg a ddatblygwyd i gasglu gwybodaeth nid yn unig am eu barn ynghylch safon ac ansawdd y bysus a fyddai'n eu cludo i'r ysgol, ond hefyd a oeddent yn teimlo'n ddiogel ar eu bws ysgol neu a oedd ymddygiad eu cyd-ddisgyblion yn cael effaith negyddol arnynt. Roedd peth cyfle hefyd i gasglu gwybodaeth oddi wrth y rheiny nad oeddent yn teithio i'r ysgol ar y bws. Er y gallai hynny mewn rhai achosion fod oherwydd eu bod yn byw yn ymyl yr ysgol, roedd yn fater o ddewis i eraill – efallai oherwydd hwylustod, ond hefyd o bosib oherwydd eu pryderon hwy neu eu rhieni ynghylch diogelwch neu fwlio.

At ei gilydd cyfrannodd rhyw 120 o blant a phobl ifanc at yr astudiaeth mewn rhyw fodd. Casglwyd y rhan fwyaf o'r data ar ffurf cyfweiliadau radio ffug a gynhaliwyd gan aelodau o dîm staff y Comisiynydd Plant, a chan y bobl ifanc eu hunain. Darparwyd recordydd tâp

Radio Backchat/Radio Atebnôl, ynghyd â chyfres o gardiau awgrym ar gyfer y cwestiynau yn y Gymraeg a'r Saesneg.


Gofynnwyd i aelodau o grŵp e-bostio Atebnôl hefyd am eu barn, a buom yn ystyried eu hymatebion. Cynhaliwyd cyfweiliadau gydag wyth deg pump o blant a phobl ifanc yn Eisteddfodau'r Urdd a'r Genedlaethol ym mis Mai ac Awst 2003. Cynhaliwyd mwy o gyfweiliadau hefyd yng Ngŵyl Ieuencid Abertawe yng Ngorffennaf 2003, a phan ddeuai grwpiau o blant neu bobl ifanc i ymweld â'n swyddfeydd.

Roedd y cyfweiliadau radio ffug yn cynnwys wyth cwestiwn, a restrir isod. Trawsysgrifwyd yr ymatebion yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cyfweiliadau Radio Atebnôl

Y cwestiynau a ddarparwyd ar gardiau awgrym

1. Beth yw dy enw?
2. Faint yw dy oed?
3. Ble rwyd ti'n byw?
4. Wyt ti'n defnyddio bus ysgol?
5. Beth wyt ti'n hoffi am dy fws ysgol?
6. Beth wyt ti ddim yn hoffi am dy fws ysgol?
7. Wyt ti'n teimlo'n ddiogel ar dy fws ysgol?
8. Beth allai gael ei wneud i wella dy fws ysgol?



Roedd saith deg pump o'r plant a'r bobl ifanc yn teithio ar fws ysgol yn gyson, nid oedd wyth yn teithio ar fws – roedd pedwar yn cerdded i'r ysgol, un yn teithio ar fws cyhoeddus, ac un yn beicio. Roedd dau yn teithio ar fws ysgol yn achlysurol.

Yr hyn ddaeth yn amlwg o'r cyfweiliadau oedd profiadau amrywiol plant a phobl ifanc ar draws Cymru. Drwyddynt gwelwyd diffyg cysondeb yn y ddarpariaeth ac yn safon y cludiant, y trefniadau goruchwylio a'r dulliau o ymateb i broblemau a godwyd gan blant, pobl ifanc a'u rhieni.

Roedd y plant a'r bobl ifanc yn frwd ynghylch rhannu eu profiadau gyda ni, ac yn aml yn pwysleisio i ba raddau roeddent yn teimlo bod teithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol yn rhan hanfodol a phwysig o'u trefn ddyddiol.

Roeddent yn gwybod pa elfennau o deithio yn ôl ac ymlaen i'r ysgol ar y bws oedd yn peri pryder neu fwynhad iddynt.

Rydym wedi crynhoi eu barn o dan y penawdau canlynol ac wedi archwilio'r ddeddfwriaeth berthnasol a'r canllawiau ochr yn ochr â hynny:

- Adran 1: Diogelwch
- Adran 2: Agweddau cymdeithasol
- Adran 3: Gyrwyr y Bysus
- Adran 4: Llwybrau i'r ysgol

Un awgrym amlwg a gyflwynwyd oedd y dylai oedolion chwarae mwy o ran, a darganfod drostynt eu hunain yr amgylchiadau oedd yn wynebu'r disgyblion:

'...perhaps travel on some of the buses sometime to see how the driver is driving.'

Katie, 17

Adran 1 Diogelwch

Cwestiwn: Wyt ti'n teimlo'n ddiogel ar dy fws ysgol?

"Dwi ddim yn teimlo'n sâff ar y *bys* achos does dim gwregys ac mae fel pethe rwy'ti'n gallu tripo lan arno ar y llawr."

Becky, 12, Caerffili

Datgelodd dros draean o'r ymatebion gan blant a phobl ifanc i'r cwestiwn hwn nad oeddent yn teimlo'n gwbl ddiogel ar y bws ysgol. Y diffyg gwregysau diogelwch a phryderon ynghylch safon y gyrru oedd eu prif bryderon; ond mynegwyd pryder hefyd ynghylch gorlenwi a'r math o fws roeddent yn teithio arno.

"Sai'n timlo'n sâff achos sdim seatbelts a mae pawb yn sefyll lan a cerdded o byti a pethe."

Eleri, 12, Sir Benfro

Cwestiwn: Beth dwyt ti ddim yn hoffi am dy fws ysgol?

Y prif beth y dywedodd y plant a'r bobl ifanc nad oeddent yn ei hoffi oedd 'y bws yn torri lawr' neu'r ffaith eu bod yn teithio ar 'hen fws'. Pan ofynnwyd iddynt pa welliannau yr hoffent eu gweld, dywedodd ychydig dros chwarter a atebodd y cwestiwn hwn eu bod am gael 'Bysus mwy newydd a mwy modern gyda gwregysau diogelwch.' Roedd mwy o gysur a glendid hefyd yn amlwg iawn.

'...I don't feel very safe when going on it because the bus is very old and grubby! In the winter when it rains the bus always gets flooded and that's pretty annoying. And because it's sooooo old the seats are ripped and are covered in chewing gum and they are sometimes dangerous because some are broken and if you're not careful enough you fall through them because the cushions are not attached to the seat itself!

The bus could be improved by getting rid of it and buying a new one!

Elan, 16, Gwynedd

1 Cyflwr y Cerbydau

"Ma fe bach o, sort of, shed on wheels."

Lowri, 12, Caerfyrddin

"Ma fe mewn cyflwr da, a ma seatbelts arno fe."

Cerys, 13, Abertawe

Mae rhieni a phlant fel ei gilydd wedi cysylltu â'r swyddfa i resynu ynghylch cyflwr ac oed rhai bysus ysgol a'r diffyg gofal amdanynt. Mae llawer o'r bysus a ddefnyddir ar gyfer cludiant ysgol yn hen (cafodd rhai sy'n dal i gael eu defnyddio'n gyson eu cofrestru gyntaf bedwar deg pum mlynedd yn ôl) ac maent yn amlwg wedi peidio â chael eu defnyddio bellach gan gwmnïau bws. Lluniwyd y rhan fwyaf ohonynt ar gyfer cludiant yng nghanol dinasoedd ac nid ydynt yn addas ar gyfer teithio'n gyflym ar y draffordd nac ar gyfer llawer o'r ffyrdd yng nghefn gwlad Cymru.

Mewn un achos dywedodd y disgyblion fod rhaid iddynt ddisgyn o'r bws yn rheolaidd a cherdded er mwyn i'r bws fedru dringo rhiw.

"I'd like to know if more ppl prefer travelling on a cronky school bus or would rather have a new bus that wont break down almost every day 2 school!!!!"

Branwen, aelod o Atebnôl

"Ma fe mewn cyflwr da ac mae seatbelts arno fe."

Cerys, 13, Abertawe

"Mae'r bws yn rhy hen."

Ffion, 15, Abertawe

Astudiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru

Ym mis Tachwedd 2003 lluniwyd holiadur a'i gyflwyno gan Is-adran Polisi Trafnidiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i bob awdurdod lleol yng Nghymru. Roedd yr holiadur yn cynnwys materion polisi cyffredinol, trefniadau contractio a diogelwch. Derbyniodd Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes Cynulliad Cenedlaethol Cymru ganlyniadau'r arolwg hwn ym mis Mawrth 2004 yn y papur *Dadansoddiad o ymatebion Awdurdodau Lleol Cymru i'r holiadur cludiant ysgol*. Bu'n ymarferiad defnyddiol a chasglwyd cryn dipyn o wybodaeth.

Datgelodd yr astudiaeth hon mai dim ond pymtheg o awdurdodau lleol oedd ag amodau penodol ynghylch math a manylion y cerbydau yn eu contract. Dim ond deg awdurdod

oedd yn gosod amodau o ran oed y cerbydau a dim ond pymtheg oedd yn nodi bod rhaid darparu gwregysau diogelwch. Gallai Llywodraeth Cynulliad Cymru neu Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru ystyried a fyddai cyhoeddi templad o gontract o'r fath, y gellid ei fabwysiadu ar unwaith, o ddefnydd i lywodraeth leol.

Mae'r papur hefyd yn datgelu bod gan dri ar ddeg o awdurdodau lleol gytundebau contract y bwriadwyd iddynt barhau am gyfnod hwy na phedair blynedd. Mae angen sicrhau, yn yr achosion hyn yn arbennig, bod cyfrifoldeb clir am fonitro'r gwasanaeth a ddarperir yn rheolaidd. Dylai'r holl gontractau gael eu hadolygu'n flynyddol ar lefel uwch, a dylai'r broses adolygu hon gynnwys adborth oddi wrth y plant, y rhieni a'r ysgolion, yn ogystal â darparwr y bysus ysgol.

2 Gwregysau Diogelwch

"We are told to wear our seatbelts but nobody does. Anyone who does are classed as 'sad' - but I do nevertheless."

Siân, 16, Ceredigion

Dylid darparu gwregysau diogelwch a chymryd camau i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio. Gallai addysgu disgyblion ynghylch y peryglon a'u hannog i gynnig eu syniadau a'u camau eu hunain i hyrwyddo manteision defnyddio gwregysau diogelwch fod yn ddull effeithiol o gynyddu ymwybyddiaeth.

'Even when there are seats, they stand. I won't lie, my friends and I used to, but only because nobody, not even the driver, told us not to. Now we're older we can see how potentially dangerous it really is.'

William, 16, Rhondda Cynon Taf

'I DO NOT feel safe on my school bus. None of us wear seatbelts as they are not provided and many pupils have to stand so if we were to crash the effects would be terrible.'

Charl, 15, Caer

3 Gorlenwi

Rydw i'n teithio ar fws ysgol on yn fy marn i mae'r bwsiau yn llawer rhy fach. Mae rhaid i dri person eistedd mewn sedd rhan fwyaf o'r amser, ac mae'r amodau yn wael ar rai o'r bwsiau rydym yn derbyn. Ar un o'm bwsiau roedd y tô yn gadael y glaw i mewn!

Dydw i ddim yn teimlo'n ddiogel pan rydw i arno'r bws am fod y gyrrwr yn gyrru'r bws yn gloi ac yn beryglus oherwydd mae'n jerky heb gwregys. Mae'n ffordd i deithio i'r ysgol ac yn ôl, ond mae'n rhaid i ni gael bws sydd a amodau llawer gwell, mwy o le ac yn wir dyle ni cael gyrrwr newydd sydd yn gwybod sut i gyrru'n ddiogel!"

Bethan, 15, Abertawe

Mae llawer o rieni wedi cysylltu â ni ynghylch yr hyn sydd, yn eu barn nhw, yn achosion o orlenwi bysus ysgol. Gall y rheol 3 yn lle 2, fel y'i gelwir, sy'n caniatáu tri phlentyn mewn seddau a luniwyd ar gyfer dau oedolyn, fod yn ffactor sy'n cyfrannu at hyn. Nid rheol yw hon mewn gwirionedd – ond yn hytrach consesiwn o dan Reoliad 5 yn Rheoliadau Lle Cludo Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 1984, y mae gan awdurdodau addysg lleol ryddid i'w fabwysiadu neu beidio. Mae'n berthnasol i'r cerbydau gwasanaeth cyhoeddus hyn (megis bysus deulawr), lle nad oes rhaid gosod gwregysau diogelwch. Yn ôl y plant roedd hon yn broblem a oedd yn effeithio ar ddiogelwch a chysur.

Mae gorlenwi'n golygu bod rhaid i lawer o blant sefyll – gyda'r peryglon ychwanegol anorfod. Mae hefyd yn golygu, hyd yn oed petai gwregysau ar gael, na allai'r holl ddisgyblion eu defnyddio.

Dyletswydd Gofal

Mae'r diffyg eglurder ymddangosiadol o ran pwysyngol gyffredinol gyfrifol am asesu a rheoli unrhyw risg i iechyd a diogelwch plant sy'n teithio ar fws ysgol yn gadael llawer mewn sefyllfa beryglus iawn. Mae'n anodd dychmygu unrhyw sefyllfa arall yn codi lle nad yw'r bobl broffesiynol hynny sydd â dyletswydd gofal am nifer fawr o blant a phobl ifanc o wahanol oedrannau ac sydd â gwahanol anghenion; sy'n cludo amrywiaeth o fagiau ac offer; sydd wedi'u crynhoi mewn man amgaeedig ac yn teithio'n gyflym, yn cynnal asesiadau risg trwyadl, gan gynnwys ystyried y gymhareb disgyblion a staff.

Byddai asesiadau risg cyson a thrwyadl yn nodi ar unwaith y peryglon diogelwch (gorlenwi, gwregysau diogelwch) ac amgylcheddol (seddau, smygu, diffyg glendid) ac yn arwain at gamau i'w gwella.

Siom, ond efallai nid syndod, yw adrodd bod ystyriaethau cysur elfennol i bob golwg yn llai o flaenoriaeth na diogelwch, hyd yn oed.

4 Cysur

Dywedodd plant a phobl ifanc wrthym am yr amodau y disgwylir iddynt eu goddef ar eu bysus ysgol, y byddai oedolion a oedd yn talu yn annhebygol o'u derbyn. Mewn llawer o achosion darperir cludiant ar eu cyfer nad yw'n addas at y diben ac sy'n dangos diffyg gwerthfawrogiad o anghenion y plant ar y teithiau hynny.

- 1 Dylid hefyd darparu lleoliad addas i ddisgyblion aros, sy'n cynnig peth lloches rhag yr elfennau.
- 2 Mae'n bwysig nad yw disgyblion yn gorfod aros yn hir am eu bws ysgol. Mae'r Prosbectws Teithio i'r Ysgol yn awgrymu amrywio oriau ysgolion mewn ardal i leddfu'r broblem hon. Gan y bydd oedi annisgwyl yn digwydd yn anorfod, dylid pennu aelod o staff yr ysgol fel man cyswllt o ran darparwr y bysus ysgol a sicrhau ei fod hefyd yn rhoi gwybod i'r disgyblion am unrhyw oedi a gwybodaeth arall. Dylai'r darparwr bysus ysgol hefyd sicrhau bod ganddo rywun sy'n gyfrifol am gyfathrebu gyda'r ysgol.
- 3 Dylai'r rheiny sy'n comisiynu neu'n darparu gwasanaeth bysus ysgol ystyried lle storio. Mae'n rhaid cludo bagiau ysgol trwm, offer chwaraeon ac offerynnau cerddoriaeth. Dylai'r bws ysgol fod yn amgylchedd diogel ar gyfer offer a dylent gael eu storio mewn modd sy'n sicrhau na allant gwmpo a pheri niwed i'r disgyblion.
- 4 Dylid ystyried sicrhau digon o le i goesau plant a phobl ifanc ar eu taith.
- 5 Os ymddengys mai ychydig o feddwl a fu am gysur myfyrwyr ar y daith i'r ysgol, ymddengys na feddylwyd o gwbl am eu difyrru ar daith a all barhau am dros awr mewn rhai ardaloedd. Byddai'n hawdd darparu cerddoriaeth (ar lefel briodol wrth gwrs). Gellid gosod teledu/fideo mewn bysus modern. Gallai byrddau hambwrdd ar gefn y seddau fel mewn trên neu goets hyd yn oed roi cyfle i rai myfyrwyr ddechrau, neu orffen, eu gwaith cartref – dywedodd rhai o'r rheiny a gymerodd ran yn ein hastudiaeth eu bod eisoes yn gwneud hynny.

"Pan mae'n bwrw glaw mae'n dod mewn trwy'r ffenestri."

Gwenllian, 14, Ceredigion

"I like the fact that on our main coach - the 3rd bus I go on - we nearly always have the radio on but not too loud in case it distracts the driver. which is also good!"

Siân, 16, Ceredigion

Gallai ysgolion, drwy amrywiaeth o gyfleoedd o fewn y cwricwlwm ac yn gyffredinol, fynd ati gyda'r disgyblion i archwilio ffyrdd adeiladol a dymunol o ddefnyddio'u hamser teithio. Mae hyn yn debygol o gael effaith positif ar ymddygiad.

5 Safonau Glendid

Mae'r bws i ni'n trafeilu arno yn ofnadwy - wrth troi cornel mae'r drws yn agor, pan mae'n bwrw glaw mae'r dwr yn arllwys i mewn trwy'r tô a mae gwm cnoi ar bron pob set!!

Shelley, 16, Sir Gaerfyrddin

Roedd cyflwr brwnt llawer o fysis ysgol hefyd yn rhywbeth a bwysleisiwyd droeon gan blant a phobl ifanc. Dylai bysus ysgol gael eu glanhau'n awtomatig ar ddiwedd y daith a dylid ymrwymo hefyd i gynnal safon uchel o ran eu cyflwr. Mae amgylchedd cysurus a dymunol ar gludiant ysgol yn dangos parch at y rheiny sy'n ei ddefnyddio a gall hynny yn ei dro annog dangos parch ato yntau.

'It's not clean and sometimes the driver can be....well, lose his temper'

Aled, 17, Abertawe

Soniodd plant a phobl ifanc am orfod teithio ar fysis a oedd yn ddrewllyd, yn frwnt, yn llawn sbwriel, lle roedd gwm cnoi ar y seddau a'r lloriau, ac nad oeddent yn edrych fel petaent wedi'u glanhau o un diwrnod i'r nesaf.

"... .. they could be cleaned more often, maybe newer ones, better seats, seatbelts"

Louise, 15, Pen-y-bont ar Ogwr

Adran 2

Agweddau cymdeithasol

"Mae'n well na mynd i'r ysgol ar ben fy hun. Ti'n cael siarad efo dy ffrindie ben bore."

Nedw, 14, Gwynedd

Soniodd y plant a'r bobl ifanc a gafodd gyfweiliad am bwysigrwydd y rhan hon o'r diwrnod ysgol fel cyfle i gwrdd â ffrindiau a chyfoedion. Mewn ardaloedd gwledig efallai mai dyma fydd un o'r ychydig gyfleoedd a gaiff rhai plant, heblaw amser cinio ac egwyl, i gwrdd â rhai ffrindiau.

Cwestiwn: Beth wyt ti'n ei hoffi am y bus ysgol?

Pwysleisiodd dros hanner y rheiny a ymatebodd **bod gyda ffrindiau** neu **gymdeithasu**.

"Mae pawb o'r disgyblion, y plant i gyd yn cael gweld ei gilydd yn y bore ac yn y p'nawn, a jyst siard am be ddigwyddodd yn yr ysgol a pethe."

Iolo, 14, Gwynedd

'I have lots of friends on my bus'

Bethan, 9, Wrecsam

"Generally the best thing is where you can just talk and some bus drivers aren't as strict as others so you can, you know, move from seat to seat to get to your friends."

Daniel, 14, Abertawe

'I like being able to chat to friends and have a laugh'

William, 16 Rhondda Cynon Taf

Goruchwyliaeth

"It would be better if we had a school escort on so then the boys wouldn't be nasty and mess around all the time."

Nia, 14, Bro Morgannwg

Cododd rhai, ond nid llawer, o'r plant a'r bobl ifanc fater goruchwyliaeth effeithiol gan oedolyn, ond teimlir bod angen ystyried hyn ac ymateb iddo fel mater o flaenoriaeth. Mae cymhareb o un oedolyn (y gyrrwr) i dros dri deg o blant, sy'n eistedd ar ddau lawr (bysus deulawr), pan yw'r odlolyn hwnnw'n cael ei gyflogi i yrru'r cerbyn yn annerbyniol. Fel y nodwyd eisoes, mae angen trefnu asesiadau risg a mesuray rheoli, a dyllai'r AALI, mewn trafodaeth gyda'r ysgolion, gymryd camau effeithiol. Mae sicrhau hebryngwyr mewn oed sydd wedi'u hyfforddi, eu gwirio a'u cefnogi'n dda yn debygol o leihau'r ymddygiad amrhioldol, gan gynnwys bwlio, ac mae gan lawer o ddisgyblion bethau da i'w dweud am yr hebryngwr ar eu bws.

"Y peth gore am y bws yw'r fenyw sy'n gofalu am ni oherwydd ar ddiwedd y dydd weithie mae'n rhoi losin i ni a mae'n gadael i ni wyllo'r teledu ar bws a ni'n gwyllo fideos a pethe."

Siôn, 11, Abertawe

Mesurau Diogelu a Chadw Golwg

Yn astudiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes ym mis Mawrth 2004 nododd un awdurdod ar ddeg fod angen darparu rhyw fath ar fesurau diogelu yn y contract a nododd un ar hugain fod angen darparu hebryngwyr ar fysis.

Mae rhai cwmnïau bysus ysgol wedi gosod systemau CCTV. Er y gallai hyn fod yn ddefnyddiol i weld pwy sydd wedi achosi digwyddiadau difrifol, NID yw monitro tapiau o'r fath yn gyson yn rhywbeth y byddai'r Comisiynydd Plant yn ei annog. Byddai hynny fel petai'n annog cadw golwg rhy fanwl ar blant ac ynddo'i hun ni fyddai'n gwneud llawer i newid ymddygiad.

Gan y gall cost prynu, monitro, cynnal a nwyddau traul systemau CCTV fod yn sylweddol, dylid ystyried cymharu hynny â chost cyflogi oedolyn ychwanegol yn hebryngwr. Yn achos cerbydau mwy gallai hyn fod yn fwy priodol, ac yn gam mwy positif. Lle bu digwyddiadau difrifol rheolaidd, cydnabyddir y gallai CCTV fod yn ddewis priodol.

Bwlio ac ymddygiad cyd-ddisgyblion

Mae bwlio hefyd yn amlwg yn broblem ar gludiant ysgol, gyda rhai disgyblion yn teimlo nad oes neb mewn awdurdod wrth law unwaith y byddant ar y bws a'u bod i bob pwrpas mewn 'tir neb'.

'Nobody talks to me on it'

Jenny, 15, Abertawe

"Ma fe'n embarrassing."

Lowri, 13, Ceredigion

"Beth dwi ddim yn hoffi am y bws ysgol yw y pobl sydd yn blwyddyn 10!"

Tomos, 11, Powys

Mae **Parchu Eraill: Canllaw Gwrth-fwlio** a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Medi 2003, yn dweud:

A good deal of bullying takes place outside the school gates, and on journeys to and from school. In light of the rural nature of much of Wales, and the wide catchment areas of many schools, many pupils take buses into schools, which gives greater potential for bullying to take place outside school.

Mae'r Canllaw'n awgrymu amrywiaeth o ddulliau o fynd i'r afael â hyn, gan gynnwys siarad â disgyblion a darparwyr cludiant ynghylch sut i ymateb i achosion. Dylid gwneud plant yn ymwybodol o ganlyniadau rhai mathau o ymddygiad a'u hannog i roi gwybod am achosion difrifol o dorri'r rheolau.

"Some of the boys on the bus are not very nice to me and my sister a boy in year 11 cut my hair and i cried because i like my hair! every one laughed at me on the bus then and they still do."

Nia, aelod o Atebnôl

Er y gwerthfawrogi nad yw'r ysgol a'r staff, mewn egwyddor o leiaf, yn gyfrifol yn yr un modd ag y byddent petai'r ymddygiad yn digwydd ar safle'r ysgol, mae'r gwahaniaeth mewn gwirionedd yn un artiffisial. Bydd digwyddiadau ar y bws ysgol yn aml yn gorlifo o ymddygiad tebyg yn ystod oriau swyddogol yr ysgol. Ar ben hynny, bydd angen sicrhau bod strategaethau megis cynlluniau cynnal cyfoedion, a sefydlir gan ysgolion i daclo bwlio ymhlith pethau eraill, yn gweithredu fel pe na bai gwahaniaeth. Os bydd staff ysgol yn cael gwybod am achosion o fwlio ar fws ysgol rhaid eu hystyried yr un mor ddifrifol â rhywbeth sy'n digwydd ar safle'r ysgol.

"Y peth gwaethaf am y bws yw'r pobl Mae nhw jyst yn, mae'r rhan fwy yn smygu a mae nhw'n rhegi a ma nhw ddim yn gadael i chi fod. Mae nhw'n annoy-o chi."

Hannah, 13, Abertawe

'Also there is the old problem of smoking, although that stopped a while ago... I have asthma so it was worse'

William, 16, Rhondda Cynon Taf

"Some bus drivers allow smoking and it makes your clothes smell throughout the day then. I don't like that."

Daniel, 14, Abertawe

"Most of the time I feel safe, except for when last week someone burnt a chair on the bus. They had a lighter and we all had to go back to school and get off the bus."

Matthew, 14, Abertawe

Gall problemau cysylltiedig â chamymddygiad dynnu sylw'r gyrrwr ac achosi perygl i ddisgyblion eraill. Gall plant a phobl ifanc gael eu cynnwys mewn sawl ffordd yn y gwaith o gynyddu ymwybyddiaeth o'r materion diogelwch dan sylw. Mae hebryngwyr staff eisoes yn cael eu darparu gan lawer o ysgolion, ac mae gan y disgyblion eu hunain rôl i'w chwarae o ran monitro a rhoi gwybod am unrhyw bryderon diogelwch neu ddigwyddiadau neu ymddygiad sy'n destun pryder. Mae angen cynnwys disgyblion yn y gwaith o drafod canlyniadau a datblygu eu rheolau ymddygiad eu hunain.

Gellid annog goruchwyllo cyfoedion, cynlluniau adrodd amdanynt eu hunain neu gynlluniau sy'n gwobrwyo'r ysgol neu'r dosbarth. Hoffem weld Llywodraeth Cynulliad Cymru yn archwilio'r rhain drwy drefnu cynlluniau peilot a rhannu'r arferion gorau.

Adran 3

Rôl y Gyrrwr

'Our bus drivers are excellent at their work they are friendly but they are firm when they need to be such as when some children are sitting dangerously - which is good'

Siân B, 16, Ceredigion

Roedd bron yr holl ymatebion a gawsom gan blant a phobl ifanc yn tynnu sylw at bwysigrwydd eu perthynas â gyrrwr y bws ysgol, a'u profiad o'r person hwnnw.

Fodd bynnag, wrth ymateb i Gwestiwn 6, pryderon ynghylch safon y gyrru ac agweddau'r gyrrwr oedd ail ymhlith y cas bethau, yn dilyn cyflwr y bysus. Rydym wedi dewis peidio â chynnwys llawer o'r sylwadau hynny yn yr adroddiad hwn.

'My driver is kind of not very good at driving!'

Bethan, 11, Castell-nedd Port Talbot

'The driver isn't nice to us'

Rebecca, 15, Abertawe

Prif rôl y gyrrwr yw gyrru'n ddiogel

Mae llawer o drafodaeth ynghylch sut gall gyrrwyr oruchwylio'n fwy effeithiol, ond mewn gwirionedd mae hynny'n anymarferol ac yn rhywbeth na ddylid dymuno ei weld. Ni fyddem yn disgwyl i yrrwr tacsï oedd â phedwar plentyn, nad oedd yn eu hadnabod, o wahanol oedrannau a gwahanol anghenion mewn cerbyd, heb wregysau diogelwch, fedru goruchwylio, difyrru a rheoli ymddygiad yn ddigon da iddynt gyrraedd pen eu taith yn ddiogel. Mae ymgyrchoedd Diogelwch Ffyrdd wedi canolbwyntio ar bwysigrwydd gyrrwyr cyfrifol, sy'n canolbwyntio ac yn medru gyrru heb i ddim dynnu eu sylw.

Ar rai gwasanaethau bws llai, mwy gwledig, gall cyfrifoldeb y gyrrwr fod rhywfaint yn wahanol, ond ni ddylid disgwyl hynny, yn hytrach dylai'r penderfyniad i beidio â chyflogi hebryngwyr eraill fod wedi'i seilio ar asesiad risg trylwyr.

Mae agweddau eraill a fyddai'n elwa o welliannau ymarferol o ran y rheiny a gyflogir i yrru bysus ysgol:

"Fi yn teimlo'n ddiogel achos mae'r dyn sy'n dreifio ni, ma fe'n foi ffein iawn, so ni gyd yn teimlo'n hapus."

Sophie, 10, Rhondda Cynon Taf

Gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol

Mae'n hanfodol bwysig wrth gwrs bod cefndir gyrwyr bysus ysgol yn cael ei wirio gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol. Datgelodd astudiaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru fod un awdurdod lleol ar hugain yn nodi bod rhaid i yrwyr contract gael gwiriad gan y Swyddfa Cofnodion Troseddol (nid atebodd un awdurdod y cwestiwn).

Goruchwyliaeth

Nododd wyth o'r awdurdodau lleol yn astudiaeth LICC hefyd fod angen gyrrwr rheolaidd yn y contract. Mewn ardaloedd llai, mwy gwledig, gall gyrrwr rheolaidd yn hawdd sylwi'n ddefnyddiol ar unrhyw blant sy'n absennol neu'n hwyr a chael effaith adeiladol ar ymddygiad.

Hyfforddiant

Serch hynny, nid edrychwyd ar hyfforddiant. Byddai'n ddiddorol dros ben dysgu pa hyfforddiant ar gyfer gyrwyr bysus ysgol sydd ar gael gan ddarparwyr bysus ysgol, awdurdodau lleol a'r ysgolion eu hunain. Byddai pynciau megis cymorth cyntaf, ymwybyddiaeth o drefniadau amddiffyn plant, cyfathrebu gyda disgyblion a gwybodaeth am sut i roi gwybod am ddigwyddiadau ac i bwy o werth mawr.

'Most of the bus drivers drive safely except the odd one drives like a maniac'

Siân, Ceredigion

Adran 4

Llwybrau Diogel i'r Ysgol

Gwnaeth rhai o'r plant a gafodd gyfweiliad sylwadau ar y ffaith fod eu taith ar y bws yn golygu bod rhaid iddynt godi'n gynt nag y byddent yn hoffi. Gwnaethant sylwadau hefyd ynghylch y ffaith fod y daith yn rhy hir a'u bod yn cyrraedd yr ysgol yn hwyr o bryd i'w gilydd. Roedd yn rhaid i rai plant newid bws ddwywaith yn y bore a'r prynhawn, gan ychwanegu'n sylweddol at hyd eu diwrnod ysgol. Byddai unrhyw gamau i resymoli teithiau i sicrhau trefniadau mwy effeithiol o ran amser teithio a chysur teithwyr i'w croesawu.

1 Teithio Iach

Wrth i ymwybyddiaeth ac ofn ynghylch y peryglon posib i blant gynyddu, rydym wedi dod yn fwy amharod i'w gweld yn cerdded i'r ysgol ar eu pen eu hunain. Gall y ffyrdd fod yn beryglus, gall hi fod yn rhy bell i gerdded, ac eto ar yr un pryd mae traffig ysgol yn creu peryglon newydd. Mae manau codi a gollwng wrth yr ysgol yn llawn peryglon i blant, a gall mwg traffig fod yn arbennig o wael o amgylch y fynedfa i'r ysgol gan olygu bod y rheiny sydd â chyflwr megis asthma yn dioddef. Mae gyrru mewn car hefyd yn lleihau'r cyfleoedd i bobl ifanc gael ymarfer corff a chymdeithasu. Rhaid i daclo'r problemau hyn fod yn flaenoriaeth i ni i gyd.

Ym mis Rhagfyr 2003 cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei **Strategaeth Cerdded a Beicio**, sy'n nodi y dylai pob ysgol fabwysiadu **Cynllun Teithio i'r Ysgol** a'i gysylltu â'r cwricwlwm.

"Dwi'n mynd ar beic oherwydd mae fe'n well i'r amgylchedd."

Gwenno, 13, Sir Gaerfyrddin

Yn ôl y **Strategaeth Diogelwch Ffyrdd i Gymru** a lansiwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ionawr, 2003:

"school travel plans aim to encourage schools to identify and solve problems associated with the school journey (especially those related to safety). The plans are produced by the schools themselves and do not have to include physical measures to improve routes but instead are a 'way of living and learning'."

Mae Sustrans, yr elusen trafndiaeth gynaliadwy, yn disgrifio cynllun teithio i'r ysgol fel "sail ar gyfer mesur newid", gan ddweud:

"A school travel plan is a document produced by the school which encompasses all the issues relevant to journeys to and from the school. It includes concerns about safety and health, and proposals for ways to make improvements. It is a means to bring together the ideas and contributions of different groups of people, to help to solve problems."

Gall cywain gwybodaeth oddi wrth rieni, gwarchodwyr a gofalwyr ynghylch y rhesymau pam maent yn dewis peidio â rhoi eu plant ar fysus contract ddangos eu bod yn

pryderu am faterion tebyg i'r hyn a amlinellwyd gan y plant a'r bobl ifanc. Clywsom gan nifer o rieni a oedd wedi cwyno am y safonau ar fysis eu plant. Mae'r diffyg gweithredu ar ran yr AALI a'r cwmnïau contract i ymateb i'w pryderon wedi golygu eu bod yn dewis cludo'r plant eu hunain. Rydym ni o'r farn bod y syniad o roi eu plant ar yr hyn a welant fel hen gerbydau annibynadwy, brwnt, nad ydynt yn ddiogel, heb ddigon o oedolion i'w goruchwyllo, yn annerbyniol i lawer o rieni, a bod hynny'n gwbl ddealladwy.

2 Cynlluniau Teithio i'r Ysgol

Gall Llwybrau Diogel i'r Ysgol ddarparu llwybrau a chyfleusterau penodol (megis parcio beiciau) i ddisgyblion, cynnwys y disgyblion mewn gwaith cynllunio a hybu ymgyrchoedd megis y "Bws Cerdded" lle mae plant iau yn cael eu hebrwng ar eu ffordd i'r ysgol mewn grwpiau (dan oruchwyliaeth gwirfoddolwyr cymeradwy sydd wedi'u hyfforddi).

Lansiodd Llywodraeth y Cynulliad ei hymgyrch Llwybrau Diogel i'r Ysgol ym 1999. Mae'r ymgyrch hon bellach yn gweithredu mewn ychydig dros 200 o'r bron 2000 o ysgolion sydd yng Nghymru. Mae gan Sustrans wasanaeth gwybodaeth sy'n cynnal ac yn hyrwyddo'r cynllun hwn (gweler yr Atodiad).

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn cymeradwyo'r cysyniad o Gynlluniau Teithio i'r Ysgol ac yn credu y dylai estyn yr ymgyrch Llwybrau Diogel i'r ysgol i gynnwys mwy o ysgolion fod yn flaenoriaeth i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Mewn unrhyw broses gomisiynu newydd dylid ystyried a yw'r cerbydau'n llesol i'r amgylchedd. Mae'n bwysig hefyd bod y bws wedi'i ddylunio i fod mor hawdd esgyn iddo â phosib ar gyfer y rheiny sydd â thrafferthion symudedd.

3 Rheoliadau Pellter a'r Llwybr sydd ar gael

Mae awdurdodau addysg lleol yn gyfrifol am ddarparu a chost trefniadau teithio ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol ar gyfer plant oed ysgol statudol. Cyhyd â bod y pellter ar hyd y llwybr cerdded agosaf o'r cartref i'r ysgol yn fwy na dwy filltir i blant o dan wyth oed ac yn fwy na thair milltir i blant wyth oed a throsodd, rhaid bod un o'r canlynol hefyd yn berthnasol:

- a Mae'r plentyn yn mynd i'r ysgol sydd fel arfer yn gwasanaethu'r ardal lle maent yn byw (yr ysgol ddalgylch); neu
- b Mae'r plentyn wedi cael ei gyfeirio i'r ysgol gan y Cyngor Sir; neu
- c Mae'r plentyn yn mynd i'r ysgol agosaf at ei gartref.

Mae'r Llysoedd wedi diffinio llwybr sydd ar gael fel un "lle gall plentyn a gaiff ei hebrwng yn ôl y galw gerdded, a cherdded yn rhesymol o ddiogel i'r ysgol. Ni fydd yn peidio â bod "ar gael" yn sgîl peryglon a fyddai'n codi pe na bai'r plentyn yn cael ei hebrwng."

Fodd bynnag, mae Deddf Addysg 1996 [509 (4)] yn awgrymu ei bod hi'n ddyletswydd ar awdurdodau addysg lleol i ystyried a yw'r llwybr yn ddiogel – p'un a yw'r llwybr o fewn dwy neu dair milltir neu beidio:

(4) Wrth ystyried a oes rhaid iddynt o dan is-adran (1) wneud trefniadau ar gyfer person penodol, rhaid i'r awdurdod addysg lleol ystyried (ymhlith pethau eraill) -

(a) oedran y person a natur y llwybr, neu'r llwybrau eraill, y gellid disgwyl yn rhesymol iddo'u dilyn; ac

(b) unrhyw awydd ar ran ei riant iddo dderbyn addysg mewn ysgol neu sefydliad lle darperir addysg grefyddol addas i'r grefydd neu'r enwad mae ei riant yn aelod ohonynt.

Gallai hyn awgrymu y gellid barnu mai dyletswydd awdurdod addysg lleol yw darparu cludiant er mwyn atal unrhyw ddisgyblion rhag gorfod defnyddio llwybrau a allai fod yn beryglus. Mae Deddf Addysg 2002 hefyd yn gosod dyletswydd ar gyrrff llywodraethu ac awdurdodau addysg lleol i ddiogelu a hyrwyddo lles eu disgyblion.

Mae rhai plant a llawer o oedolion wedi cysylltu â swyddfa'r Comisiynydd Plant am eu bod yn ei chael hi'n anodd deall y rheol hon pan fo rhai achosion lle mae gan gymdogion agos hawl gwahanol ar gludiant i'r ysgol. Mae rhai oedolion wedi awgrymu bod mynd i'r ysgol ar hyd ffordd wledig brysur heb balmant yn beryglus iawn i bob cerddwr, ac yn arbennig i ddisgyblion ysgol, sy'n gorfod defnyddio'r ffordd honno ddwywaith y dydd.

Mae'r Prosbectws Teithio i'r Ysgol wedi dweud bod y rheol pellter wedi "dyddio". Byddai'r Comisiynydd Plant yn croesawu arweiniad yma gan y llywodraeth er mwyn egluro'r sefyllfa bresennol er lles rhieni a llywodraeth leol fel ei gilydd.

4 Cynlluniau Teithio i'r Ysgol: Prosbectws a Mesur Drafft

Bwriad y ddogfen ymgynghorol hon, a gyhoeddwyd ar y cyd gan y Swyddfa Gymreig a'r DfES ym mis Mawrth 2004, yw datblygu ffyrdd blaengar o annog disgyblion i ddefnyddio bysus ysgol, cludiant cyhoeddus, cerdded neu feicio.

Bydd chwe ardal o Gymru'n cael eu cymeradwyo ar gyfer cynlluniau ac yn 2011 bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n penderfynu a ddylai'r cynlluniau lleol barhau a/neu gael eu hestyn i ragor o AALLau.

Yn ôl y Prosbectws Teithio i'r ysgol:

"Rhaid i bob cynllun geisio lleihau'r defnydd o geir ar y daith o'r cartref i'r ysgol. Ar ben hynny, rhaid iddynt ganolbwyntio ar flaenoriaethau lleol a gallant wella'r ddarpariaeth ar gyfer un neu fwy o'r canlynol:

- disgyblion sy'n teithio i ysgolion enwadol;
- disgyblion mewn ardaloedd o Gymru lle siaredir Saesneg yn bennaf sy'n teithio i ysgolion cyfrwng Cymraeg;
- disgyblion sy'n teithio ar hyd llwybrau sydd yn anniogel ym marn rhieni;
- disgyblion sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau allgyrsiol, ar safle'r ysgol neu mewn mannau eraill.

Gallent hefyd arbrofi gyda'r canlynol:

- trefniadau pwrcasu blaengar, yn enwedig mewn cydweithrediad gyda dulliau eraill o ddarparu cludiant a ariannir yn gyhoeddus;

- technoleg fodern o ran cynllunio'r daith, casglu arian a rheoli'r cynllun, cysylltiadau agosach gyda pholisïau cludiant ôl-16, gan arwain at ddarpariaeth fwy cyson ar gyfer disgyblion hŷn;
- defnydd ehangach o oriau agor amrywiol i ysgolion, wedi'u cyflwyno drwy gydweithio ag ysgolion;
- mwy o ffocws ar faterion diogelwch cludiant;
- datrysiadau cludiant wedi'u teilwra i ysgolion cefn gwlad a'u cymunedau."

Bydd angen i rieni chwarae rhan lawn a chael gwybod am y gwelliannau arfaethedig er mwyn teimlo'n hyderus wrth ddewis trefniadau cludiant eraill ar gyfer eu plant.

Croesawir y cynnig hwn gan Gomisiynydd Plant Cymru a bydd y swyddfa'n ymddiddori mewn gweld pa ymgyrchoedd fydd yn cael eu cychwyn.

5 Mynd Ymhellach

Ymchwil

Mae Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru wedi comisiynu ymchwil gan y Sefydliad Cenedlaethol er Ymchwil Addysg gyda'r nod, erbyn Gorffennaf 2004, o:

- ♦ Nodi pryderon cyfredol AALlau, cwmnïau cludiant, ysgolion a disgyblion ynghylch cludiant ysgol.
- ♦ Nodi blaenoriaeth ar gyfer cludiant ysgol o fewn y fframwaith rheoli presennol a) ar lefel llywodraeth genedlaethol/ddatganoledig a b) ar lefel awdurdod lleol.
- ♦ Nodi pa newidiadau y dylid eu gwneud i'r fframwaith rheoliadol.
- ♦ Nodi enghreifftiau o arfer da.
- ♦ Cynnig argymhellion ar gyfer datblygiadau yn y dyfodol a fyddai'n bwydo i ganllawiau arfer da.

Mae cynrychiolydd Comisiynydd Plant Cymru eisoes wedi mynychu un o'r cyfarfodydd ymgynghori â phlant i arsylwi. Edrychwn ymlaen gyda diddordeb at ganlyniadau'r ymchwil.

Cludiant Anghenion Addysgol Arbennig

Mae rhai rhieni wedi cysylltu â thîm y Comisiynydd Plant i roi gwybod bod y trefniadau ar gyfer cludiant ysgol mewn tacsï i'r ysgol ac oddi yno wedi golygu bod disgyblion ag anghenion addysgol arbennig yn cael diwrnod ysgol byrrach – drwy gyrraedd yn hwyrach a gadael yn gynt.

Mynegwyd pryderon wrthym hefyd fod lefel yr oruchwyliaeth yn annigonol mewn rhai achosion lle mae sawl plentyn sydd â phroblemau meddygol ac ymddygiad ar fws mini.

Dywedwyd wrthym hefyd fod rhai gyrwyr tacsï yn anaddas. Mae gan awdurdodau addysg lleol bŵer yn ogystal â dyletswydd i sicrhau bod y rheiny sydd mewn cysylltiad agos â phlant yn destun gwiriadau'r Swyddfa Cofnodion Troseddol a'u bod o gymeriad da. Ymddengys rhai awdurdodau lleol mewn penbleth ynghylch y pwerau sydd ganddynt yn y cyd-destun hwn. Er bod Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 wedi golygu y gellid ystyried euogfarnau rhai gweithwyr fel "wedi'u treulio", ac felly y gellid eu

hanwybyddu, ychwanegodd Offeryn Statudol 2002 (441) Gorchymyn Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygiad) 2002 yrwyr tacsis at y rhestr o weithwyr sydd wedi'u heithrio o ystyriaethau o'r fath. Carem awgrymu y byddai awdurdodau lleol yn elwa o ganllawiau pellach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Adran 5 Prif Ganfyddiadau ac Argymhellion

Hawliau Pwy? Cynnwys Plant a Phobl Ifanc

Mae Erthygl 2 yng Nghytundeb y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn datgan: "States Parties shall assure to the child who is capable of forming his or her own views the right to express those views freely in all matters affecting the child" ac mae'r hawl hwn yn rhywbeth y carai Comisiynydd Plant Cymru ei weld yn cael ei roi i blant mewn perthynas â'u cludiant i'r ysgol.

Daeth yn glir drwy waith tîm Comisiynydd Plant Cymru y gwelir plant fel derbynwyr goddefol gwasanaeth sydd yng ngofal yr awdurdod lleol. Ni soniodd yr un o'r plant y buom yn siarad â hwy am unrhyw gyfle i roi eu barn ar y gwasanaeth drwy'r ysgolion, yr awdurdod addysg lleol nac yn uniongyrchol i'r darparwr cludiant.



Rhai materion allweddol

Hyd yn oed o ystyried y gallai rhai o'r rheiny a fu'n rhan o'r ddeialog am eu bysus ysgol fod wedi goreuro'u hanesion rywfaint, mae'n amlwg bod angen i bawb dan sylw weithredu i daclo'r materion canlynol yn arbennig.

Y bysus: Mae ansawdd a safon y cerbydau'n amlwg yn broblem, ond efallai nad yw'n ymwneud ag oed y bysus a ddefnyddir ar gyfer contractau ysgol yn unig. Dylai bysus ysgol fod yn ddiogel, yn lân ac yn ddibynadwy. Ymddengys bod cerbydau un llawr yn llawer gwell na rhai deulawr o ran diogelwch a rheoli ymddygiad. Mae'r cyfleusterau sydd ar gael ar gerbydau mwy newydd hefyd yn cael effaith o ran gwella diogelwch ac ymddygiad.

Goruchwyliaeth: Byddai darparu hyfforddiant priodol ar gyfer gyrwyr bysus ysgol a sicrhau hebryngwyr wedi'u hyfforddi, eu gwirio a'u cefnogi'n ddigonol ar bob bws ysgol yn arwain at lawer o fanteision. Mae atal achosion o ymddygiad gwael yn llawer mwy dymunol na chosb lem wedyn. Mae disgyblion yn amlwg yn gweld eu teithiau ar y bws fel 'amser hoe', ac mae'n anorfod eu bod am ymlacio a gollwng stêm. Pan fydd y daith honno'n digwydd ar gerbyd di-raen, gorlawn, heb ddim i dynnu eu sylw na threfniadau hebrwng digonol, mae bron yn anochel y bydd trafferthion.

Gwregysau diogelwch: Dylid gosod gwregysau diogelwch ym mhob bws ysgol a dylai'r disgyblion eu gwisgo, er y bydd angen cryn dipyn o anogaeth ar rai i wneud hynny, o bosib. Er bod y rhan fwyaf o ddisgyblion a gymerodd ran yn gwerthfawrogi bod dadleuon cryf dros wisgo gwregysau diogelwch, ac yn erbyn cerdded a symud o amgylch y bws wrth deithio, mae eu hymatebion i gwestiynau eraill yn dangos y bydd yn cael effaith ar y

rhyddid y maent yn amlwg yn ei fwynhau ar ôl diwrnod hir yn yr ysgol. Mae i'r gwregysau diogelwch hefyd broblem delwedd y gellid ei thaclo drwy addysg gyhoeddus a chynnwys plant a phobl ifanc yn natblygiad rheolau ar gyfer ymddygiad ar fysus ysgol a'u cyfranogiad parhaus yn y gwaith o fonitro a rhoi gwybod am ddigwyddiadau a phryderon. Mae'n amlwg nad yw'r 'rheol 3 yn lle 2' yn cyd-fynd â'r angen am sicrhau bod gwregys diogelwch ar gael ar gyfer pob plentyn.

Argymhellion: lleisiau disgyblion

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn argymhell bod:

- awdurdodau addysg lleol yn tywys ac yn annog ysgolion i gywain barn eu disgyblion ynghylch ymddygiad, cysur a diogelwch ar fysus ysgol er mwyn gwella'r amodau.
- angen i awdurdodau addysg lleol annog cyfranogiad rhagweithiol plant a phobl ifanc yn y gwaith o ddatblygu cynlluniau lleol ar gyfer cludiant i'r ysgol.
- angen i blant a phobl ifanc fod yn rhan o fonitro a rhoi gwybod am ddigwyddiadau a phryderon diogelwch fel rhan o bolisiâu a gweithdrefnau AALI neu ysgolion ar gludiant ysgol. Gan fod materion o'r fath yn aml yn cael mwy o effaith ar blant, bydd llwybrau ar gyfer gwrando ar y materion a godwyd yn gwella ymwybyddiaeth ac ymateb yn gyffredinol.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu canllaw i ysgolion ar oruchwylio a rheoli ymddygiad plant a phobl ifanc ar fysus ysgol, gan gynnwys plant a phobl ifanc, sefydliadau hawliau plant, darparwyr cludiant a sefydliadau addysg.
- angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru sicrhau bod ymgynghori â phlant, pobl ifanc a'u rhieni neu eu gofalwyr yn rhan annatod o unrhyw gynlluniau a gymeradwyir o dan y Prosbectws Teithio i'r Ysgol ac unrhyw ddatblygiad strategol pellach gan Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Egwyddorion o'r Prosbectws Teithio i'r Ysgol a gymeradwywyd

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn credu bod:

- deddfwriaeth cludiant ysgol bresennol, sy'n derbyn ei bod hi'n rhesymol i ddisgyblion gerdded tair milltir i'r ysgol (dwy filltir i rai o dan wyth), gyda'u rhieni i'w hebrwng os bydd angen, bellach wedi dyddio.
- angen i unrhyw gynlluniau newydd ar gyfer teithio i'r ysgol gael eu seilio ar asesiad o anghenion teithio'r holl ddisgyblion mewn ardal cynllun teithio lleol.
- angen i gynlluniau teithio gynnwys mesurau amddiffyn ar gyfer plant a anfonir i ysgol na ddewiswyd gan eu rhieni gryn bellter i fwrdd o ganlyniad i fethu sicrhau lle mewn ysgol bellter cerdded o'r cartref.

- angen i gynlluniau teithio gynnwys darpariaeth ar gyfer cludo i ysgolion enwadol neu ysgolion cyfrwng Cymraeg, hyd yn oed pan nad y rheiny yw'r ysgolion agosaf.
- angen i Gynulliad Cenedlaethol Cymru feddu ar y grym i ofyn bod awdurdodau addysg lleol yn diddymu neu'n diwygio agweddau ar eu cynlluniau teithio.

Argymhellion: Deddfwriaeth a Chanllawiau

Mae Comisiynydd Plant Cymru yn argymhell bod:

- angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ystyried a ddylid mynd ar ôl dileu'r consesiwn a geir yn *Rheoliad 5 Rheoliadau Lle Cario Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 1984* ac a oes angen canllaw neu ddeddfwriaeth bellach i nodi'r isafswm safonau ar gyfer oed a chyflwr cerbydau cludiant ysgol a gomisiynir gan awdurdodau addysg lleol.
- angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru roi cyfarwyddyd i awdurdodau addysg lleol ar natur y contractau y dylent geisio eu sicrhau gyda darparwyr bysus ysgol. Dylai'r cyfrifoldeb am fonitro perfformiad a chyfleoedd i adolygu contractau fod yn glir. Dylid ystyried gofalu am lendid a chysur. Dylid annog contractwyr i fuddsoddi yn eu cerbydlu, ac felly dylid ystyried contractau a gâi eu hadolygu'n gyson a'u monitro'n ofalus am gyfnodau o fwy na phedair blynedd i wneud hyn yn ariannol ymarferol.
- angen i awdurdodau addysg lleol a darparwyr bysus ysgol ddarparu hyfforddiant ar gyfer gyrwyr bysus ysgol mewn meysydd megis amddiffyn plant, rheoli ymddygiad a chyfathrebu'n briodol gyda phlant.
- Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ystyried estyn yr ymgyrch Llwybrau Diogel i'r Ysgol fel blaenoriaeth allweddol.

Argymhellion: yr hyn a ddywedodd plant a phobl ifanc wrthym

Roedd gan lawer o'r disgyblion a gymerodd ran yn yr astudiaeth argymhellion ac awgrymiadau adeiladol – a syml – ynghylch sut i wella diogelwch ac amgylchiadau cyffredinol eu teithiau ar y bws ysgol.

Roedd hyd yn oed y rheiny a ymddangosai'n weddol hapus gyda'r lefel diogelwch wrth ymateb i gwestiynau eraill yn nodi materion megis gwregysau diogelwch, bysus mwy newydd a diogel, a hebryngwyr neu oruchwylwyr i helpu atal ymddygiad drwg yn gymaint ag i ddisgyblu'r rheiny oedd yn ymddwyn yn wael.

Mae llawer o'u hawgrymiadau'n ymddangos yn amlwg iawn, ac mae'n destun pryder bod trefniadau elfennol heddiw o ran diogelwch a chysur yn dal heb dderbyn ymateb gan y rheiny sy'n trefnu ac yn darparu gwasanaethau bysus ysgol. Mae'r modd y mae plant a phobl ifanc yn mynegi'r awgrymiadau hyn yn dweud llawer wrthym am eu dirnadaeth a'u teimladau am eu profiadau eu hunain o'r bws ysgol.

- ☺ "Cael gwared o'r drewdod."
- ☺ "Bws newydd, a gwres yn y bore."
- ☺ "Peintio arny'n nhw'n fwy neis a cael seatbelts
- ☺ "Have someone to make sure everyone wears their seatbelt and look after children when they are on the bus so that they don't get up and shout and walk about."
- ☺ "Make sure nobody smokes cigarettes."
- ☺ "Cael single decker mwy modern yn lle double decker."
- ☺ "Comfortable seats."
- ☺ "Llai o sbwriel."
- ☺ "Gyrrwr y bws yn bod yn garedig inni a peidio a gweiddi arno ni."
- ☺ "Jyst gwella'r standard."
- ☺ "Gwregys!"
- ☺ "Something to do – like videos."
- ☺ "Seatbelts on every bus – not just the minibus."
- ☺ "Dau fws yn lle un – bydde hynny'n help."
- ☺ "Bysus i'r ysgolion a'r plant sy'n gorffod cerdded neu mynd mewn car – sa'n credu bod e'n deg iddyn nhw."
- ☺ "Bys ein hunan, yn lle mynd ar y service bus, achos bod dim lle i eistedd."
- ☺ "Bach mwy o leg room!"

- ☺ "Falle cael rhywun i edrych ... i wneud i blant ishte lawr, a pethe fel'na."
- ☺ "Bysus mwy"
- ☺ "Cael bws falle sydd ddim yn cwmpo bant a pethe."
- ☺ "Maybe seatbelts."
- ☺ "Teithio arnyn nhw ryw amser!"

Atodiad

Cyfeiriadaeth

Deddf Addysg 1996

Deddf Addysg 2002

Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes: ELL(2) 06-04 (p2) Atodiad B Dadansoddiad o ymatebion Awdurdodau Lleol Cymru i'r holiadur cludiant i'r ysgol Mawrth 2004

Arolwg Teithio Cenedlaethol 2002, Yr Adran Drafnidiaeth, Ebrill 2004

Cynlluniau Teithio i'r Ysgol: Mesur a Phrosbectws Drafft, DfES a'r Swyddfa Gymreig, Mawrth 2004

Offeryn Statudol 2002 (441) Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974 (Eithriadau) (Diwygiad) Gorchymyn 2002

Rheoliad 5 Rheoliadau Lle Cludo Cerbydau Gwasanaeth Cyhoeddus 1984

Deddf Ailsefydlu Troseddwyr 1974

Strategaeth Diogelwch Ffyrdd i Gymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Ionawr 2003

Strategaeth Cerdded a Beicio i Gymru, Llywodraeth Cynulliad Cymru, Rhagfyr 2003

www.dfes.gov.uk

www.dft.gov.uk

www.firstgroup.com/yellowschoolbus

www.saferoutestoschools.org.uk

www.sustrans.org.uk

www.wales.gov.uk/subittransport

www.walkingbus.com